



"Ydych chi eisiau Taliesin a Thre'r Ddol i fod yn gymunedau ynni cynaliadwy?"

...a beth am Dal-y-bont clywir rhai ohonoch yn datgan

Roedd tua 25 o bobl yn y cyfarfod a gafodd ei gadeirio ar y cyd rhwng Polly Henderson ac Andy Rowland o Ecodyfi. Fe gyflwynodd Andy arolwg o'r problemau ynni sydd yn ein hwynebu ni a'r strategaethau gwahanol a allai ein helpu. Er enghraifft esboniodd am ffyrdd i ni leihau'r defnydd o ynni yn ein tai, yn ogystal â chynlluniau ynni adnewyddol mwy o faint a fyddai'n addas i bentrefi a chymunedau bychain.

yw ein ffordd i ni fesur faint o dir sydd angen arnon ni i fyw yn gynaliadwy. Er enghraifft, petai pawb yn y byd yn defnyddio a gwastraffu cymaint â ni yng Nghymru, miasai angen 2.5 planed er mwyn cynnal ein dull ni o fyw. Fe gynigiodd Bev arwain gweithdy petai pobl a diddordeb ar y pwnc yma.

Y prif siaradwr arall oedd Duncan Kerridge, sy'n byw yn Eglwys Fach. Mae e'n ymddiriedolwr Cymuned Adnewyddadwy Bro Ddyfi. Sefydliad cymunedol yw hwn sydd wedi llwyddo gosod dau dwrbein gwynt cymunedol ym Mro Ddyfi. Esboniodd sut mae'r broses wedi gweithio yno a hefyd fe gyflwynodd rhai technegau eraill megis boeler pelets coed.

A black and white aerial photograph of a village, likely in Ireland, showing a cluster of houses with dark roofs and white walls, surrounded by fields and trees. A prominent church with a tall spire is visible on the left side of the village.

Golygddy Cyffredinol:	Geraint Evans Garnwen, Tal-y-bont, Ceredigion. post@garnwen.org.uk Cysyllter â golygyddion y mis. Carys Briddon	(01970) 832475
Tynnu lluniau: Teipyddes:		
Bont-goch: Parsel Henlllys: Eglwysfach: Taltiesin: Tal-y-bont:	GOHEBYDDION LLEOL Hilda Thomas, Cwmere, Bont-goch Dilys Morgan, Alltgoch Wendy Fuller, Pandy, Ffwrnais Mai Leeding, Glannant, Taltiesin Aileen Williams, Maesmeillion Kathleen Richards, Y Bryn Susan Lewis, Maesgwyn, Tre'r Ddôl Janet Evans, Cefngweiriog Eirlys Jones, 91 Maes y Deri	832295 832498 (01654) 781312 832672 832438 832201 832429 (01654) 781260 832483
Tre'r Ddôl: Maes y Deri:		
Cadeirydd: Is-gadeirydd: Ysgrifennydd: Trysorydd: Aelodaeth: Hysbysebion: Plygu: Dosbarthwyr:	CYMDEITHAS PAPUR PAWB Gwenallt Llwyd Ifan, Llys Alaw, Tal-y-bont Bleddyn Huws, Henllan, Tal-y-bont Megan Mai, Gwynionydd, Tal-y-bont Gwyn Jenkins, Maes Gwyn, Tal-y-bont Aileen Williams, Maesmeillion Wendy Fuller, Pandy, Ffwrnais Gwenllian Parry Jones, Lyn Hammonds Enid Gruffudd, Susan Lewis, Gwenllian Parry-Jones, Eurllys Jones (Tanysgrifiadau)	832660 832448 832384 832560 832438 (01654) 781312

Cyhoeddir gan Gymdeithas Papur Pawb gyda chymorth
Cyngor Celfyddydau Cymru - Bwrdd Gorllewin, a Bwrdd yr Iaith Gymraeg

Annwyl Gyfeillion

CRYNWYR YNG
NGHEREDIGION

Efallai y carai rhai o'ch aelodau
gael gwybod fod y Crynwyr yn
cynnal cyfarfod i addoli, cyfrwng
Cymraeg, ar y trydydd Sul yn y
mis yn y Ty Cwrdd, Penparcau,
Aberystwyth am ddau o'r gloch.
Mae croseo i unrhyw un ymuno
a ni, ac am ragor o wybodaeth
gellir cysylltu a mi ar 01970
610056. Bydd y cyfarfod nesaf ar
y 18fed o Chwefror.

Yn gywir iawn
Gethin Evans

DIOLCH

Dymuna teulu y diweddar
Gareth Hughes Llŷs Awel Tal-y-
bont ddiolch yn ddiffuant iawn
am bob arwydd o gydymdeimlad
a chyfeillgarwch a ddangoswyd
iddynt yn eu profedigaeth.
Diolch am y cardiau niferus, y
galwadau ffôn, y blodau a'r
cyfraniadau hael tuag at Ward
Llewelyn Ysbyty Bronglais.

HIVE JIVE

CHWEFROR 23fed
7.30 o'r gloch
YN Y FFATRI MÊL
LÔN GLANFRED,
TAL-Y-BONT
DAWSIO, BWYD,
CERDDORIAETH,
STONDINAU A
CYSTADLAETHAU MÊL
I GODI ARIAN TUAG AT
PROSIECT CADW
GWENYN
YN CAMEROON

S. F. BYRNE
Adeiladwr a Saer Maen



Ffôn: 01970 832068
M: 077626 20309
Gwneir pob math o waith

Afiaith
Gwasanaeth Cyfleithu

Profiadol • Proffesiynol
Prydlon • Personol

Martie Davis
Iwy-ord, Tre Talleis, MACHYNYLLETH
Ffônys 3725 880 Cyfms
Ffôn/Ffacs +44 (0)1297 822230 afiaith@aol.com

**A DAVIES
TRYDANOL**

Tŷ Morben Isaf
Derwenlas
MACHYNLLETH
Powys SY20 8SR

ALAN DAVIES Ffôn 01654 781213

Us am ddaet neu bes mnti
CAMBRIAN
CABS
Welshian Bell at Agos
01970 626292

CHWEFROR

- 11 **Bethel** 10 Gweinidog
Nasareth 2 Walford L. Gealy
Rehoboth 2 D. Llewelyn
Eglwys Dewi Sant 2.30
Gosber a Chymun
Bendigaid
- 13 **C.Ff.I.** Noson “Rhowch i mi
gliw”
- 14 **Cyfarfod Cyffredinol**
Neuadd Goffa, Tal-y-bont,
8.00, Gwaelod y Neuadd
- 15 **Sefydliad y Merched Tal-y-
bont.** Cyfarfod Prynhawn:
Sgwrs am reilffyrdd bach
- 16 **Clwb Nos Wener** – Dathlu’r
Hen Galan, 6.30, Gwaelod y
Neuadd
C.Ff.I. Cystadleuaeth
Drama, Felinfach
- 18 **Bethel** 2 Parch W.J. Edwards
Nasareth 5 J. Tudno
Williams (C)
Rehoboth
Eglwys Dewi Sant 11
Cymun Bendigaid
- 19 **Merched y Wawr Tal-y-
bont a’r Cylch.** Sion Glyn:
Coginio
- 20 **C.Ff.I.** Noson Cystadleuaeth
Gremfog yng nghwmni
Mair Nutting
- 25 **Bethel** 2 Gweinidog
Nasareth 2 R.H. Lewis
(Bethel)
Rehoboth 5 T.J. Irfon Evans
(C)
Eglwys Dewi Sant 9.30
Boreol Weddi
- 27 **C.Ff.I.** Noson o ddramau
Tal-y-bont (i’w gadarnhau)

**CYMDEITHAS
SIOE TAL-Y-BONT
CYNHELIR
CYFARFOD
BLYNYDDOL
NOS LUN,
5 MAWRTH 2007
am 8.00 yr hwyr
YN Y NEUADD GOFFA
CROESO CYNNES I BAWB**

Yr heddlu am wybod

Mae PACT (*Police and Community Teams*) yn bwriadu cynnal cyfarfod yn Nhal-y-bont yn ystod mis Mawrth i roi cyfle i bobl yr ardal drafod anghenion yr ardal o ran derbyn gwasanaeth gan yr heddlu. Mae gwahoddiad i bob cymdeithas neu fudiad ym mhlwyf Ceulanamaesmawr, a hefyd y capeli, yr eglwys, yr ysgol a'r ffermwyr lleol i anfon cynrychiolydd i'r cyfarfod. Enwau'r cynrychiolwyr i'r Cynghorydd Glenys Edwards, Is-Gadeirydd Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr cyn gynted â phosib, os gwelwch yn dda.

MAWRTH

- 4 **Bethel** 6 Gweinidog
Nasareth 10 R.H. Lewis
(Bethel)
Rehoboth 5 Ifan Mason
Davies
Eglwys Dewi Sant 2.30
Cymun Bendigaid
- 5 **Merched y Wawr Tal-y-**
bont a'r Cylch. Dathlu
Gŵyl Dewi yn Nhyndlidiart
yng nghwmni Bethan Bryn
- 6 **C.Ff.I.** Noson Gawl yng
nghwmni siaradwr gwadd
- 11 **Bethel** 10 Parch Irfon Evans
Nasareth 10 T.J. Irfon Evans
(Bethel) C
Rehoboth 5 Tudor Davies
(C)
Eglwys Dewi Sant 2.30
Gosber a Chymun
Bendigaid
- 13 **C.Ff.I.**
- 15 **Sefydliad y Merched, Tal-y-**
bont. Cyfarfod Prynhawn –
Miss Tamlin Watson
- 18 **Bethel** 10 Undebol Soar
Llanbadarn
Nasareth
Rehoboth 2 Adrian P.
Williams
Eglwys Dewi Sant 11
Cymun Bendigaid
- 20 **C.Ff.I.**
- 25 **Bethel** 2 Gweinidog
Nasareth 2 W.J. Edwards
Rehoboth 10 Lewis Wyn
Daniel
Eglwys Dewi Sant 9.30
Boreol Weddi

Os am gynnwys manylion am weithgareddau eich mudiad neu'ch sefydliad yn nyddiadur y mis, dylech anfon y manylion llawn at Aileen Williams, Maesmeillion, Tal-y-bont (01970 832438) o leiaf ddeng niwrnod cyn y rhifyn nesaf o Papur Pawb.

Noddir gan
Lywodraeth
Cynulliad Cymru

Cydnabyddir cefnogaeth
Bwrdd yr Iaith Gymraeg
i'r cyhoeddiad hwn

**BWRDD YR IAITH
GYMRAEG • WELSH
LANGUAGE BOARD**

Golygyddion y rhifyn hwn
oedd Medi, Nic, Mererid a
Fran gyda Ceri yn dylunio.
Golygyddion y rhifyn nesaf
fydd Megan, Phil 832384,
a Sion Pennant. Dylai'r
deunydd fod yn llaw'r
golygyddion erbyn 2 Mawrth a
bydd y papur ar werth dydd
Gwener 9 Mawrth.

COFIO CATRIN

Ddydd Sadwrn Ionawr 6ed, yng Nghapel Hyfrydle, Caergybi, cynhaliwyd gwasanaeth coffa i Dr Catrin Prys Jones, Afon Dawel, Tal-y-bont, a fu farw'n sydyn fis Hydref diwethaf yn ddim ond 30 oed. Daeth cynulleidfia luosog ynghyd, a thalwyd nifer o deyrngedau iddi, yn cynnwys un gan yr Athro Elan Closs Stephens, Coleg Prifysgol Aberystwyth. Dywedodd hi, 'Dois i adnabod Catrin i ddechrau fel myfyriwr israddedig hynod o alluog; roedd hi hefyd yn ddoniol, yn ffraeth, yn hardd iawn, yn deyrngar i gyfeillion a chydweithwyr ac yn anhygoel o ffyddlon i Glwb Pêl-droed Lerpwl'. Talodd yr Athro Stephens deyrnged hefyd i deulu Catrin, ac i'w chymar, Glen Creeber, sy'n dal i fyw yn y cartref a rannai'r ddau yn Nhalybont.

DYWEDDÏO

Llongyfarchiadau i Aled, mab John ac Eirwen Hughes, Pencwm, Bontgoch, ar ei ddyweddïad â Caryl Lewis, yr awdures boblogaidd, sy'n hanu o Ddihefyd ger Aberaeron.

BRYSIWCH WELLA

Dymuniadau gorau i Mrs Enid Williams, Frondirion, yn dilyn ei thriniaeth yn Ysbyty Bronglais.

DYMCHWEL Y BYNGALO BACH


Am fwy na deg mlynedd ar hugain mae Brynhyfryd, byngalo bach pren, wedi sefyll yn wag yn Nhaliesin. Mis Ionawr eleni symudodd y JCB's i mewn i'w ddimchwel. Codai rhyw don o hiraeth i'w weld yn cael ei dynnu lawr, ond gobeithio gweld cartref newydd yn fuan yn ei le.

CROESO NÔL

Croeso nôl i Wynn ac Ann Thomas, Cilgant-y-Coed, sydd wedi bod ar wyliau i Seland Newydd. Rydym yn edrych ymlaen i'r noson cewn glywed yr hanes a gweld y ffilmiau.

LLONGYFARCHIADAU

Mr a Mrs Byron Hopkins, Melindwr, Glandyfi sydd yn dathlu eu 61fed penblwydd priodas ar 2 o Fis Chwefror.



Cyfeillion Cartref Tregerddan

Mae nifer o bobl yn yr ardal yn gweithio'n galed ar achlysuron i godi arian i Gartref Tregerddan. Achlysur o lawenydd felly oedd gallu cyflwyno gwerth £2,500 o ddodrefn ar gyfer y preswylwyr yno. Ar brynhawn Sadwrn yn ystod mis Ionawr cyflwynwyd y dodrefn iddynt a braf yw gwybod y caiff rhai o gyn drigolion Tal-y-bont ddefnydd o'r dodrefn. Yn y llun, gyda nifer o'r cyfeillion, fe welir Mrs Aileen Evans a Mrs Miriam Jones. Hefyd yn y cartref mae Miss Elwedd Jenkins. Braf yw gwybod eu bod yn cael gofal caredig yno.

Dymuniadau da iddyn nhw, yn enwedig i Mr Hopkins sydd yn ysbyty Machynlleth ar hyn o bryd.

Sarah McKenna a Billy Langley sydd wedi cael mab, brawd i Dylan a Morgan. Hefyd i Richard a Liz Spencer, Tŷ Manceinion Taliesin sydd wedi dod yn nain a taid am y tro cyntaf. Mae Maddy wedi cael merch o'r enw Skye Elizabeth. Mae Maddy yn byw gyda'i phartner ger Norwich.

Llongyfarchiadau hefyd i Gwenan, merch ieuengaf Dilwyn a Carys Jones, Llys Eleri, Tal-y-bont, ar ei dyweddïad ag Aled Prys Jones o'r Waunfawr, Caernarfon.

Llongyfarchiadau Angela Jones 10 Maesclettwr Tre'r Ddol, Sian James Swn-y-Nant, Tal-y-bont, a Carwyn Evans 82 Maesyderi Tal-y-bont ar ddathlu eu penblwyddi yn 40 oed yn y mis.

FFWRNAIS/BACHGEN LLEOL YN ÔL GARTREF

Croeso cynnes i Gwyn a Glenda Jenkins, Manon a Llion sydd wedi symud i fyw i Dolwerdd o Drawskoed. Y mae Gwyn yn dechrau ar swydd newydd fel technegydd arddangosfeydd yn y Llyfryrgell Genedlaethol. Gobethio y byddant yn hapus yn ein plith.

PENBLWYDDI ARBENNIG

Llongyfarchiadau i ddwy sydd wedi cyrraedd oedran teg yn ystod mis cyntaf 2007, sef Rosie Evans 71 Maesyderi yn 93 oed a Rita Jenkins Tegfan yn 95. Cofion cynnes atynt

BRYSIWCH WELLA

Gwellhad buan i Gerwyn Jones Frondeg Tal-y-bont ar ôl ei ddamwain ar y cae rygbi fis diwetha. Hefyd i'r Athro O'Hara Golwg-y-Mor, Richard Bayford a Mrs Aldwyth Morgan Maesmawr bob un wedi cael cyfnod yn yr ysbyty.

HANES O'R UNOL DALEITHIAU

Braf oedd clywed David Griffiths Tal-y-bont gynt, mab Mrs Griffiths Glanleri, yn siarad ar raglen Hywel a Nia fore Gwener. Sôn oedd am ei fywyd a'i waith ers iddo symud i fyw i America. Clywyd am y wobr a gafodd am yrru lorri enfawr heb gael yr un ddamwain. Cyfanswm y milltiroedd roedd wedi ei yrru oedd dwy filiwn.

CROESO

Croeso i Dylan, Karen a Tyrone i'w cartref yn Ger-y-Nant.

CYDYMDEIMLO

Mae nifer o drigolion ardal Papur Pawb wedi colli aelodau o'u teulu yn ystod y mis. Cydymdeimlwn a nhw oll.

Mrs Glenys Edwards Cartrefle ar farwolaeth ei modryb Miss Lily Peate o Lanwrin. Bu Miss Peate yn byw yng Nghaerdova rhai blynyddoedd yn ôl yn gofalu am Mr a Mrs James

David a Judith James a'r teulu ar farwolaeth brawd David sef George James Trefenter. Roedd yn fab i'r diweddar Mr a Mrs Will Llewelyn James Maesnant.

Mr a Mrs Gwilym Roberts 99 Maesyderi ar farwolaeth Mrs Eurwen Edwards Llanfarian, roedd yn gyfnither i Beti a Gwilym, hefyd yn berthynas i Brian Jones Penlon a Ceri a Dylan Brynawelon a teuluoedd Tŷnant Ynys Tudur a Llysynyr.

Mrs Dilys Hughes a'i merch Linda a'r teulu yn dilyn marwolaeth Mr Gareth Hughes.

Dr Iolo ap Gwynn a'r teulu wedi colled ei fam Dr Eirwen Gwynn, Cwm Cerwyn.

SWYDD NEWYDD

Llongyfarchiadau i Claire Fowler, Bron y Gân, ar ei swydd newydd yn Adran Addysg y Cynulliad. Hefyd i Emma Lamb, Glandŵr ar ei phenodiad fel Archaeolegydd Tiriogaethol i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol.

CERDDORFA

Llongyfarchiadau i Ciara Laverty a Gwennan Hardy ar gael eu derbyn yn aelodau o Gerddorfa Ieuencid Genedlaethol Cymru. Da iawn ferched!



Rhodd Penblwydd i'r Ambiwylans Awyr

Pan oedd Dr Myrtle Parker Ger-y-Plas yn trefnu dathlu ei phenblwydd yn 80 oed, penderfynodd gael tri parti i'w ddathlu. Un i'w meibion, teulu a ffrindiau yn Swydd Wiltshire, yn cynnwys ei mab hynaf a deithiodd o Seland Newydd, yr ail i'w chyd-aelodau yn Eglwys Dewi Sant a'r trydydd i'w chymdogion a'i ffrindiau lleol. Dywedodd wrth bawb nad oedd am anrhegion ond byddai'n derbyn cyfraniadau tuag at Ambiwylans Awyr Cymru. Casglwyd y swm anrhydeddus o £745.00.



O'r chwith Annie Smith Anwylfa a Valerie Deauville, Dol Pistyll gyda Hilary Hadfield Tanyberllan yn gwylio.

Sefydliad y Merched Tal-y-Bont

Ar y 4ydd o Ionawr, am yr ail flwyddyn yn olynol, cafodd 13 ohonom ein Cinio Calan yn y Llew Du yn Nerwenlas. Gyda ni oedd aelod newydd, Valerie Deauville sydd wedi dod, gyda'i gwr, i fyw i Dol Pistyll. Ar ôl gwledda ar ddau gwrs a choffi, cyhoeddais mai enillydd y plat am 2007 oedd Juliet Trudgill. Cefais i fy llongyfarch, ar dderbyn gwahoddiad i ddod yn yn aelod o Bwyllgor Gweithredol Ffederasiwn Ceredigion yn ogystal a pharhau am flwyddyn arall ar y Pwyllgor Materion Cyhoeddus.

Sheila Talbot

Mrs Menna Jones, Mertyn, Tal-y-bont

Gyda thristwch mawr y clywodd yr ardal am farw Mrs Menna Jones, Mertyn, ddydd Llun yr 8ed o Ionawr. Law yn llaw â'r tristwch yr oedd yna hefyd sioc a syndod fod y diwedd wedi dod mor sydyn, a hithau wedi bod o gwmpas y lle yn ôl ei harfer ond ychydig ddyddiau ynghynt.

Un o frodorion yr ardal oedd Menna Jones, yn un o'r unarddeg o blant a anwyd i William Robert Evans ac Annie Mabel Evans ei briod ym Mwlchglas ac yn ddiweddarach yn y Ruel Isaf, Bow Street. Gan fod dau o'r plant wedi eu colli'n fabanod a bod Ieuan wedi ei golli mor sydyn yn 1991, saith yn unig o'r tyaid arbennig yma o blant sydd bellach ar ôl, sef Enid, Gwesyn, Morfydd, Dei, Beti, Gerallt a Margaret, ac y mae'n cydymdeimlad ni'n ddiffuant â hwy yn eu profedigaeth.

Y mae dechrau'r daith yn hanes Menna Jones yn mynd yn ôl i fis Ebrill 1930 ac i aelwyd y Ruel Isaf, Bow Street, gan mai yno yr oedd y teulu'n byw erbyn hynny. Symud wedyn i Bantydwn ac oddi yno i Rhiwfelen, Penegoes, wedi iddi briodi Sydney Jones o'r lle hwnnw. Dwy chwaer, Menna a Morfudd, yn priodi dau frawd, Sydney a John, a'r pedwar yn byw gyda'u gilydd yn Rhiwfelen. Bendithiwyd Sydney a Menna Jones â thri o blant yng nghwrs yr amser, sef Mair, William a Richard. Daeth tro creulon ar fyd i'r teulu bach yn 1970 gyda marwolaeth Sydney Jones yn ddyn ifanc, ac yn ddiymdroi daeth Menna Jones a'i phlant yn ôl adref megis ac ymsefydlu ym Mertyn, Tal-y-bont. Ac ym Mertyn y bu hi weddill ei dyddiau. Yno yr aeth ati'n gydwybodol i gadw gwely a brecwast am flynyddoedd. Yno yr oedd yn frenhines ar ei haelwyd ac yn fawr ei gofal o'i phlant ac o'u teuluoedd hwythau yn y man. Yno y sefydlodd ardd ffrynt werth ei gweld a gwledd ryfeddol o ddelias pinc bendigedig i'w gweld yno bob blwyddyn. Yn Nhalybont ymaelododd yng Nghapel Bethel a bu'n aelod ffyddlon yno am flynyddoedd.

Gwraig ei milltir sgwâr a gwraig ei theulu oedd Menna Jones heb os nac oni bai, ac un o gymeriadau lliwgar pentref Tal-y-bont hefyd. Bydd y pentref fel ei theulu yn dlotach o lawer hebddi. Wrth gofio'n annwyl amdani yr ydym hefyd yn cofio am Mair, William a Richard, Colin a Wendy, Angharad, Caryl, Rhian a Nia a'r cysylltiadu i gyd ac yn cydymdeimlo'n ddiffuant â hwy yn eu profedigaeth, eu hiraeth a'u galar.

Richard Lewis

Sefydliad y Merched Eglwysbach

Cafodd yr aelodau noson arbennig yng nghwmni Harvey Hudson sydd yn byw yn y pentref dros dro. Mae'n ffotograffydd a dangosodd luniau bendigedig o Affrica ac engrefftau o rai sydd ar werth ganddo ar y we. Roedd yn braf gweld ambell i wr wedi troi i mewn, i godi tips siwr o fod!

Bydd y gangen yn dathlu Dydd Gwyl Dewi ar y 5ed o Fawrth, cyfarfod yn agored i bawb, pan fydd Erwyd Howells yn siarad ar y testun "Merched Mewn Amaethyddiaeth" Croeso cynnes i bawb.

Wendy Fuller

Cymdeithas Henoed Tal-y-Bont

Ar y 29ain o Ionawr fe gafodd y Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol ei ohirio achos bod y cadeirydd a'r ysgrifennydd yn anhwylyd. Roedd y trysorydd, Dr Myrtle Parker yn bresenol, ac fe gynhaliwyd cyfarfod cyffredinol anffurfiol, roedd unarddeg aelod yn bresennol. Swyddogion 2006 oedd: cadeirydd Mrs Valma Jones, ysgrifenyddes Ms Sheila Talbot a'r trysorydd Dr Myrtle Parker ac maent i gyd wedi ymddiswyddo ers 31 ain o Ragfyr 2006.

Er mwyn i'r Clwb barhau mae'n angenrheidiol cael unigolion i wasanaethu fel swyddogion a'r drefn yw i unigolion gael eu cynnig a'u heilio ar gyfer y dair swydd yma. Gadewch i Ms Sheila Talbot Ty Clyd Tal-y-bont Ffon 832574 gael yr enwau cyn dydd Gwener 16 o Fawrth 07 fel bod Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol yn cael ei drefnu er mwyn i'r clwb barhau.

Dr Myrtle Parker

Gareth Hughes, Llys Awel, Tal-y-Bont

Yn dawel yn ysbyty Bronglais ar yr 16eg o Ionawr 2007, bu farw Gareth Hughes Llys Awel yn 88 mlwydd oed. Yr oedd yn fab i'r diweddar John James Hughes (Afon Alaw) a Margaret Jane Hughes Llys Alaw. Yr oedd yn ŵr ffyddlon i Dilys a thad cariadus i Linda a'r diweddar Margaret, yn dad-cu hoffus iawn i Rhys, Emma ac Ellen. Yr oedd yn golled aruthrol iddo a'r teulu pan fu farw Margaret yn 1997, yn 42 oed, ac ni ddaeth dros yr achlysur.

Yr oedd yn frawd i'r diweddar Enid, Geraint a Mena. Cafodd ei eni a'i fagu yn Llys Alaw, ar aelwyd grefyddol a cherddorol. Aeth i Ysgol Gynradd Tal-y-bont ac yna am gyfnod i Ysgol Ardwyn yn Aberystwyth. Yr oedd yn sôn yn aml am ei gyfoedion yno. Wedyn aeth ymlaen i fod yn brentis mewn modurdy yn Pier St. Aberystwyth (ble mae Stewarts's nawr). Wedi cyfnod llwyddiannus yno aeth ymlaen i wneud cwrs trydanol yn W H Jones ar y stryd fawr.

Ar ddechrau'r rhyfel ymunodd a'r awyrlu fel 'fitter'. Soniai lawer am yr amser hynny, a chofiai am yr amser difyr yn Brize Norton.

Yn anffodus iawn iddo, fe gollodd ei iechyd a threuliodd fisoedd mewn ysbytai mewn llawer man. Ar ôl ei ryddhau o'r awyrlu a chyfnod o wellhad, ailgydiodd yn ei waith fel trydanwr ac ymhen peth amser dechreuodd ei fusnes ei hun. Yr oedd yn hapus iawn. Fe weithiodd yn galed a gwneud enw da iddo'i hun. Yr oedd canmoliaeth mawr iddo am ei waith perffaith mewn eglwysi, capeli, ysgolion a thai, mewn cylch eang.

Yr oedd Capel Nazareth yn agos iawn iddo ymhob ystyr. Gallai olrhain hanes ei deulu yn ddidor ers dechreuad y capel. Pan fu farw ei dad yn 1949, dilynodd ef fel ysgrifennydd, a bu yn y swydd am dros 50 o flynyddoedd. Roedd yn bleser gweld llyfrau'r capel – yn lân ac yn ddestlus bob amser. Yn 1951 cafodd ei ethol yn flaenor. Bydd y golled yn fawr ar ei ôl.

Yn 1950 priododd â Dilys, merch o Lanafan, a fu'n help mawr ac yn gysur iddo ar hyd y blynyddoedd. Yr adeg yma penderfynodd adeiladu tŷ newydd. Felly adeiladwyd Llys Awel a Haulfryn, ym mherllan ei hen gartref, Llys Alaw. Bu'n byw yn yr un stryd yn y pentref, gydol ei oes!

Wedi gwasanaeth byr i'r teulu yn Nazareth, cynhaliwyd y gwasanaeth angladdol yn yr amlosga ar y 23ain o Ionwr dan ofal y Parchedigion Elwyn Pryse, Robert W Jones, Aled Jenkins (cefnder) a WJ Edwards.

Dilys Hughes a Linda Pierce



Dr Eirwen Gwynn

Bu farw Dr Eirwen Gwynn Cwm Cerwyn yn 90 oed yn ddiweddar. Bu'r teyrngedau cenedlaethol yn dyst o'i dawn a'r dylanwad mae hi wedi ei gadael ar Gymru a'r byd gwyddonol. Ar ôl byw yn ein plith yn Nhalybont ers ugain mlynedd dyma atgofion rhai o'i chyfeillion ohoni.

Un a oedd yn fythol ddiolchgar am bob cymwynas oedd Eirwen i mi. Bum yn dyst i'w chroeso bob amser gyda phaned i mi ac i bawb a alwai heibio. Wastad a gwen ac yn drwsiadus ei gwisg. Roedd wrth ei bodd yn garddio, yn gwnio ac yn pwytho. Meddyliai'r byd o'i theulu.

Mair Jones, Maesnant



Braint fawr i mi oedd cael gwraig fel Dr Eirwen Gwynn i fyw drws nesaf i mi. Roedd yn wraig arbennig iawn. Treuliais aml i orig ddifyr iawn yn ei chwmni ar ei haelwyd gyda'r nos. Cefais ei hanes diddorol o'i phlentyndod yn Lerpwl ac ar hyd ei bywyd. Roedd yn wraig alluog iawn ac eto gallai ddod lawr i fy lefel i wrth drafod pynciau fel gwyddoniaeth, amaethyddiaeth, mater yr iaith a chrefydd. Gwelaf golled fawr ar ei hôl, gwêl Cymru hefyd golled fawr. Dysgais lawer iawn yn ei chwmni, ond siom fawr i mi oedd ei bod wedi ein gadael heb i ni gytuno ar fater pwysig bywyd.

Gwilym Jenkins, Llety'r Bugail

Mae dros 63 o flynyddoedd wedi mynd ers i mi gyfarfod Eirwen am y tro cyntaf. Roedd Eirwen a Harri yn gweithio yn y Gwasanaeth Sifil a newydd ddod i Lundain i fyw. Ym mis Medi 1943, ynghanol y 'blackout' a'r bomiau rhyfel, aeth Ithel a minnau o Reading i'w gweld, dyna ddechrau cyfeillgarwch oes. Mae sôn yn genedlaethol wedi bod am orchest academaidd gyrfa Eirwen ond rwyf i am ychwanegu ochr arall i'w doniau a fy edmygedd ohoni fel gwraig ymarferol tu hwnt.

Roedd yn arlunydd medrus mewn olew, dyfrlliw a golosg. Cynllunio dillad, gwniadwraig a theilwres heb ei hail oedd diddordeb arall. Heb sôn am y gwaith gwnio a wnâi ar y dodrefn yn ei chartref. Pan euthum i Dyddyn Cwcwallt yn Eifionydd i'w gweld roedd y croeso yn wresog ond synnu oeddwn fod Eirwen yn gweithio mor galed. Roedd wedi ymroi i fod yn ffermwraig weithgar a chydwybodol ac yn arloeswr mewn llawer maes.

Ar ôl iddynt symud i Dyddyn Rheinallt, Llanrug, parhau a'r gwaith o drin yr ardd fawr a wna Eirwen gan dyfu blodau a llysiau amrywiol i'r tŷ ac i ffrindiau. Parhawn i synnu bod gwraig mor landeg a del yn medru cyflawni sut gymaint o waith.

Ar ôl i Harri farw, symudodd yn 1987 i Dalybont i fod yn agos i'w mab Iolo, a threuliasom lawer o amser gyda'n gilydd. Roedd y sgwrs bob amser yn ddiddorol, amserol a difyr yn ei chwmni.

Ni fu bywyd yn garedig i Eirwen yn y blynyddoedd olaf yma. Roedd yn gaeth i'r tŷ a'r cryd cymalau yn boen, ond roedd yn siriol bob amser ac wrth ei bodd yn sgwrsio efo ffrindiau. Mae'n drist meddwl bod Cwm Cerwyn yn wag. "Balm i'r enaid fydd cael cofio." Dyma gerdd a ymddangosodd yng nghylchgrawn, Omnibus, 'Y Coleg ar y Bryn' Bangor, yn 1936 pan oedd Eirwen, Harri ac Ithel gyda'i gilydd yn fyfyrwyr.

Valmai Jones, Y Wern

Hiraeth

Gwn fod golau'r lleud heno
Ar rhyw draethell bell yn Llŷn,
A mae'r cychod bach yn dawnsio
Wrth yr angor un ac un ;
Ymgawdoliad gwyn o Hiraeth
Ydyw'r gwylain ar y lli,
A maent hwy yn dweud fy alaeth,
Aeth fy mron yn eu cri

Harri Gwynn

Merched y Wawr

Croesawyd awdures Llyfr y Flwyddyn 2005 atom yn ein cyfarfod cyntaf yn y flwyddyn newydd. Gemau oedd testun Caryl Lewis ond nid oedd angen fan Securicor arni gan mai gemau syml a phrydferth ac eithaf rhad a ddaeth gyda hi.

Bu Caryl ar brofiad gwaith go anarferol yn ystod 2006 wrth iddi weithio ar stondin gemwaith ym Marchnad Caerfyrddin er mwyn gwneud gwaith ymchwil ar gyfer ei nofel nesaf 'Y Gemydd'. Soniodd am hanes, cefndir a nodweddion y cerrig lliwgar ac fe ddaeth yn noson i ben yn llawer rhy gyflym.

Diolchwyd iddi gan lenor ein cangen, Carys Briddon. Yn ein cyfarfod nesaf byddwn yn gwneud casgliad i ganolfan iechyd arbennig i blant ac hefyd yn casglu llyfrau Cymraeg a Saesneg ar gyfer Diwrnod y Llyfr.

Ysgol Gymunedol Tal-y-bont

Dechreuodd y flwyddyn newydd yn gymharol dawel ar ôl bwrlwm cyfnod y Nadolig, ond mae gweithgareddau wythnosol yr ysgol wedi eu cynnal yn ôl yr arfer.



Disgyblion yr ysgol a fu'n cystadlu yng ngala nofio ysgolion Cylch Aberystwyth.

Chwaraeon

Mae wedi bod yn fis prysur iawn ar y meysydd chwaraeon. Yn ystod wythnos olaf y mis bu'r tîm nofio yn cystadlu'n frwd yng ngala nofio'r cylch. Bydd 2 dîm cyfnewid ac unigolion yn camu ymlaen i'r rownd nesaf yn fuan.

Bu plant yr ysgol yn cystadlu yng nghystadleuaeth pêl-rwyd yr Urdd yn ystod y mis hefyd. Fe chwaraeodd y tîm yn arbennig o dda gan ddangos tipyn o ymroddiad a dyfalbarhad.

Mae'r ddau dîm hoci wedi chwarae'n gyson bob Nos Wener ac mae cymaint â 35 o bêl-droedwyr yn cael cyfleoedd cyson i chwarae yng nghynghrair y Mini Minors bob Dydd Sadwrn, tipyn o gamp! Diolch i'r hyfforddwyr i gyd am eu hymroddiad i'r ysgol.

Yr Urdd

Mae'r Urdd ar nos Iau yn mynd o nerth i nerth ac fe gafwyd nosweithiau difyr iawn yng nghwmni Dafydd Saer a'i gwahanol gitaraau, Medwyn Parry'n dangos awyrluniau o'r ardal a Miss Huw'n cynnal gweithdy drama.

Cyfrifiaduron

Ar ddechrau'r tymor, bu Blwyddyn 5 a 6 yn Ystafell Gyfrifiaduron Ysgol Penweddig yn dysgu am agweddau o'r cwricwlwm. Cafwyd hwyl yn dysgu drwy chwarae gêm LOGO.

Noson Fathemateg

Cynhaliwyd noson ddifyr iawn yn yr ysgol yn ystod y mis. Daeth Liwsi Harries, un o athrawon ymgynghorol y Sir, i roi sgwrs am y gwahanol strategaethau y mae plant yn gallu eu defnyddio mewn gwersi Mathemateg erbyn hyn. Diolch yn fawr iawn i bawb ddaeth i gefnogi'r ysgol, gan obeithio fod pawb wedi mwynhau!

Melinau Gwlân

Mae disgyblion yr ysgol yn dysgu am y diwydiant gwlân yn Nhal-y-bont ar hyn o bryd. Rydym eisoes wedi bod yn edrych ar hen luniau, ar fapiau'r ardal ac ar raglen ddiddorol am Felin Leri yn y Llyfrgell Genedlaethol. Ond, ar gais y plant, gofynnwn yn garedig os oes rhywun sy'n byw yn lleol ac a fu'n gweithio yn y melinau gwlân yn fodlon rhannu eu hatgofion gyda ni fel ein bod yn casglu cymaint o wybodaeth â phosib am yr agwedd bwysig yma o hanes lleol.



Tîm pêl rwyd yr ysgol

Eisteddfod Yr Ysgol

Mae pawb yn brysur iawn yn paratoi ar gyfer Eisteddfod yr Ysgol ar hyn o bryd. Croeso i chi ymuno gyda ni ar ddydd Iau, Mawrth y 1af yn y Neuadd Goffa. Yna ar Nos Wener yr 2il o Fawrth bydd Côr Ger y Lli a disgyblion yr ysgol yn cynnal noson o Cawl a Chân yn y Neuadd Goffa. Croeso i bawb ymuno gyda ni.

Barddoni

Bu un o ddisgyblion yr ysgol yn ffodus iawn i gael ei ddewis i fynychu gweithdy gyda Bardd Cenedlaethol Cyntaf Cymru yn y Llyfrgell Genedlaethol yn ystod mis Ionawr. Ar ôl gweithio'n galed gyda Gwyneth Lewis am awr neu ddwy, cafodd Iwan Taylor, Mur Mawr gyfle i ddarllen ei gerdd yn gyhoeddus fel rhan o ddiwrnod agored y Llyfrgell. Dyma un o'i gerddi. Pob hwyl i ti yn yr Eisteddfod Genedlaethol.



Iwan Taylor

Chwarae pêl droed

Pêl droed, pêl droed yw'r hwyl i fi
Chwarae gêm llawn hwyl a sbri
Cicio pêl i gefn y rhwyd
Amddiffyn ein gôl ni
Hwyl a sbri ydi hi cicio'r bêl fyny fry.

Ymarfer Dydd Mercher gyda'r tîm
Ar hyfforddwr yn dweud "Gwych wyt ti."
Chwarae yn dda nes i fi haeddu gwobr am fy ymdrech,
Gwobr Chwaraewr y Flwyddyn.
Hip, hip hwrê! Da iawn fi!!!!

gan Iwan Lewys Taylor

Aethom ni i fferm Cerrigaranau i ffilmio ar gyfer cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd. Aethom ni o amgylch y fferm i ffilmio. Dysgais i lawer am y Gwartheg Duon Cymreig. DIOLCH YN FAWR!!! i Mr Jenkins ac i Geraint am ein tywys o gwmpas y fferm. Gan Richard Jenkins, Eilir Huws, Gruffudd Mason, Conor Jones ag Iwan Taylor.



Ysgol Gymunedol Llangynfelyn

Ymweliad Iwan Llwyd

Ar brynhawn Gwener, Ionawr 26ain, bu plant yr ysgol yn freintiedig i gael sesiwn ysgrifennu creadigol o dan arweiniad meistrolgar Iwan Llwyd. Cyfrannodd holl blant yr ysgol at wahanol sesiynnau, a chafwyd cerddi gwerth eu clywed ar ddiwedd y prynhawn. Dyma oedd cerdd y plant hŷn:

Y Filltir Sgwar

Pentre bach ym mola'r bryn
Lle'r oedd awen Taliesin
Yn cuddio, rhwng y mynydd a'r môr
A Chors Fochno'n frenin:

Pentre sy ar y tyrpeg o hyd,
Er amser y Rhufeiniaid,
A'r iaith yn dal i deithio'r hewl
Yn dilyn cylch y Celtiaid.

Pentre pert o dan y coed,
Ar lannau afon Clettwr,
Cartre'r gwenyn bach a'r ŵyn,
A chaeau mwyn y ffermwr.
Iwan Llwyd a disgyblion 4,5 a 6

Gala Nofio Lleol

Bu criw o ddisgyblion yn cystadlu yng ngala nofio ysgolion bach cylch Aberystwyth yn ddiweddar, ac fe berfformiodd pawb eu gorau glas. Ni lwyddodd pawb i ennill, ond fe wnaeth pawb fwynhau eu hunain.

Ymweliad Criw yr Urdd

Cafodd aelodau clwb yr Urdd yn yr ysgol fynd ar ymweliad i Feithrinfa Newmans ger Capel Dewi y mis hwn, a chawsant amser braf yn dysgu am y gwahanol blanhigion ac anifeiliaid anwes a geir yno.



Seren Driphlyg

Llongyfarchiadau mawr i Ruth Dingle, o flwyddyn 6, ar gael tymor arbennig iawn. Mae wedi cael y frainc aruchel o gael ei derbyn yn aelod o Gerddorfa Plant Cynradd Prydain, i chwarae ei ffidil.

Ar ben hynny, cafodd lwyddiant yng ngala nofio cenedlaethol yr Urdd yn Abertawe ar Ionawr 27ain, lle daeth yn drydydd drwy Gymru ar nofio 25metr yn steil broga.

Ac i goroni y cwbl, cafodd Ruth lwyddiant hefyd yng nghystadleuaeth gymnasteg unigol yr Urdd, drwy ddod yn gyntaf yn ei chategori.

Llongyfarchiadau mawr i ti Ruth, a dymuniadau gorau wrth ddilyn dy freuddwydion.

Pelrwyd yr Urdd

Am y tro cyntaf ers llawer blwyddyn bu tîm pelrwyd o'r ysgol yn cystadlu yng nghystadleuaeth pelrwyd yr Urdd. Am dîm a ffurfiodd rhyw fis cyn y gystadleuaeth, fe wnaethant yn arbennig o dda, gan ddod a thipyn o falchder i'r ysgol. Da iawn iddyn nhw.

Ffilmio yn Cerrig Carannau



Rhai o ddisgyblion Blwyddyn Chwech Ysgol Gynradd Tal-y-bont yn paratoi ar gyfer gyrfaoedd fel criw camera, actorion a chyflwynwyr y dyfodol!

Mwynheais ffilmio yn Cerrig Carannau. Roedd llawer o bethau wnes i ddysgu wrth ffilmio yno - fel cneifio'r defaid o fewn y sied yn y gaeaf felly erbyn y gwanwyn byddai rhaid i'r ddafad yn ogystal â'r oen chwilio am gysgod allan yn y cae. Cymron ni lawer o amser i ffilmio yno - tua bore cyfan. Diolch i Geraint a'r teulu am helpu ni efo'r fideo a mwynheais mas draw.

*Elan Elidyr
Blwyddyn 6*

EdGair – yn hwb i blant dyslecsig Cymraeg ac hefyd plant neu unigolion sydd a nam golwg.

Mae meddalwedd newydd fydd yn cynnig cymorth i blant dyslecsig sy'n cael addysg drwy gyfrwng y Gymraeg wedi cael ei lawnsio gan Prosiect Dyslecsia Cymru, yn ddiweddar.

Mae'r meddalwedd, a elwir yn EdGair, yn rhaglen brosesydd geiriau syml.

Yn ôl y Prosiect mae prinder adnoddau cyfrwng Cymraeg o'r fath yn y maes anghenion arbennig. Mae EdGair yn medru llefaru'r geiriau ar y rhyngwyneb a'r dewislenni ac yn darllen yn uchel y geiriau sy'n cael eu teipio. Mae'n defnyddio llais Cymraeg pwrpasol yn hytrach nac addasiad o lais Saesneg.

Yn ôl Michael Davies, un o swyddogion Prosiect Dyslecsia Cymru, mae datblygu rhaglenni bwrpasol Cymraeg yn angenrheidiol wrth helpu plant sy'n derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg.

“Mae problemau plant dyslecsig sy'n siarad Cymraeg yn hollol unigryw oherwydd patrymau sillafu'r iaith, treigliadau ac yn y blaen,” meddai.

Bydd y meddalwedd ar gael am ddim i ysgolion ar hyd a lled Cymru a gellir ei lwytho ar holl gyfrifiaduron ysgol. Gall rhieni hefyd lwytho'r rhaglen ar eu cyfrifiadur adref, drwy fenthycar CD oddi wrth Prosiect Dyslecsia Cymru, ac wedyn ei ddanfôn yn ôl.

Os am fwy o fanylion cysylltwch â Michael Davies. Ei gyfeiriad ebost yw: llechryd1@btconnect.com neu rhif ffôn: 07990-813921.

Cyngor Cymdeithas Ceulanamaesmawr

Nos Lun olaf o Ionawr cynhaliwyd Cyngor cyntaf y flwyddyn newydd ac yn absenoldeb y Cadeirydd oherwydd anhwylder cymerwyd at yr awenau gan y Cyng. Glenys Edwards ac yn estyn croeso i'w chydacelodau ar y Cyngor. Dymunwyd gwellhad buan i'r Cyng. Ellen ap Gwynn gan gydymdeimlo â hi hefyd yn ei phrofedigaeth o golli mam yng nghyfraith.

Ar gynnig y Cyng. Nest Jenkins a'r Cyng. Megan Mai yn eilio derbyniwyd bod cofnodion ddiwedd Tachwedd yn rhai cywir.

Rhodddwyd cyfle i'r Heddwad Bro, Hefin Jones, amlinellu ei obeithion a'i syniadau i sefydlu grŵp gyda chynrychiolaeth eang o wahanol fudiadau yn y gymuned yna cyfarfod unwaith y mis i drafod unrhyw broblemau neu syniadau o fudd i'r gymuned.

Gofynnwyd i'r Aelod Seneddol, Mark Williams, gefnogi Mesur roddwyd gerbron y Senedd ddydd Gwener, 19 Ionawr i geisio sicrhau pasio'r Bil ar Gymunedau Cynladwy a rhwystro rhagor o ddirywiad yng nghefn gwlad. Derbyniwyd cadarnhad iddo gytuno i hyn.

Ecodyfi yn rhoi gwybod fod cronfa ariannol wedi'i sicrhau ar gyfer y prosiect llwybrau treftadaeth yn y gymuned ac yn awyddus iawn i drefnu cyfarfod arall yn y pentref i geisio rhagor o hanesion ac a fydd o werth i'r prosiect.

Cysylltwyd ag Adran Llwybrau'r Cyngor Sir droeon yn ddiweddar gan dynnu'u sylw at broblemau arnynt. Llwybr 6/91 Glanceulan, dŵr yn gorlifo o gwter; 6/100 Braichgarw Uchaf, llidiart ar safle anghywir a 6/94 Tŷ Hen, y llwybr at y bompren newydd yn llithrig. Ar y ffordd ddiddosbarth ger Y Winllan, twll wedi datblygu ac yn peri problemau i gerbydau.

Derbyniwyd adroddiad arolygwr peirianyddol y cwmni yswiriant ar gyflwr offer y cae bach. Argymhellir gosod bariau wrth ochrau'r siglenni a gosod arwyddion i ddynodi gwybodaeth parthed y safle.

Cytunodd y Cynghorwyr wneud cais i'r Cyngor Sir am archebiant o £11500 ar gyfer anghenion ariannol y flwyddyn nesaf.

Derbyniwyd cais cynllunio i godi estyniad i Sŵn y Gog, Bont-goch a chais am godi mesurydd gwynt saith deg medr o uchder ar dir i'r dwyrain o Moel Fferm.

Adroddwyd bod y gwasanaeth ffôn i drigolion Cwm Ceulan yn ddifrifol o wael ac ansicr gyda thoriadau byth a hefyd. Penderfynwyd anfon at Telicom Prydain i ofyn iddynt drefnu cywiro'r system yn fuan ac at yr Aelodau Seneddol a'r Cynulliad iddynt roi pwysau ar yr Awdurdod.

Erbyn hyn mae arolwg o'r cerrig beddau yn y fynwent wedi'i gwblhau. Oherwydd eu hansefydlogrwydd bu'n ofynnol, fel mater o ddiogelwch, gosod pum penfaen ar wastad eu cefnau. Cafwyd pump ar hugain arall mewn cyflwr ag angen sylw buan, marciwyd hwy â thâp melyn a disgwylir iddynt gael eu cywiro ymhen tri mis. Y mae wyth ar hugain penfaen arall mewn dosbarth gweddol ddiogel tra cafwyd y gweddill o tua pedwar cant a hanner mewn cyflwr sefydlog boddhaol.

Os gall unrhyw aelod o'r cyhoedd roi gwybodaeth am gysylltiadau teuluol unrhyw un o'r enwau ar y penfeini ansefydlog bydd y clerc yn ddiolchgar dros ben.

Goronwy Wyn Jones

Gol.

Fe dderbyniom gopi o sylwadau beirniadol oddi wrth un teulu am y modd mae gwaith gofal y fynwent gyhoeddus yn mynd rhagddo. Yn ôl yr hyn a ddeallwn ni mae'r drefn briodol wedi ei dilyn a chwmni dilys wedi eu contractio i wneud y gwaith. Nid yw'r cynghorwyr wedi gweld y sylwadau eto efallai y bydd mwy i adrodd mis nesa.

Siop y Pethe
Aberystwyth

Llyfrau a Recordiau
(01970) 617120

ANGEN
Anifeiliaid Tew
(i'w lladd mewn
lladd-dy lleol)

Cysylltwch â Tegwyn Lewis
Capel Bangor 880627



Band Ieuenctid

Llongyfarchiadau i Jade Wilmot, Dennis Foster, Evan Rowbottom, Gwydion Jones, Robbie Taylor - aelodau Band Ieuenctid Aberystwyth a daeth yn ail yn y 'Greater Gwent Youth Brass Band Festival' ar 27 Ionawr. Arweinydd y Band yw Alan Phillips.

Pwyllgor Rheoli Neuadd Goffa Tal-y-Bont

A gaf i fel cadeirydd presennol y pwyllgor uchod estyn gwahoddiad cynnes iawn i chwi i ymuno â'r pwyllgor.

Criw bach, hynod weithgar ydym a buasai cael mwy atom yn fuddiol iawn. Ein bwriad yw cael cynrychiolydd o bob gweithgaredd sydd yn cwrdd yn y neuadd.

Rydym yn hynod ffodus o gael neuadd arbennig yn y gymuned a'n dymuniad ni yw ei chadw mewn cyflwr da fel bod pob rhan o'r gymdeithas yn gallu mwynhau ei defnyddio.

Mae Eurllys Jones, ein ysgrifenyddes bresennol, am ddiwedd mis nesaf ar ôl rhoi wyth mlynedd o waith manwl a chydwybodol iawn i'r pwyllgor yma a bydd colled mawr hebddi fel ysgrifenyddes. Ond ar ôl rhoi cymaint o amser clodwiw i'r pwyllgor mae'n haeddu cael seibiant bach!

Oes rhywun â diddordeb i roi ychydig o amser i'r pwyllgor? Bydd croeso mawr i unrhyw un sydd yn barod i ymuno â ni.

Da yw sylwi bod y neuadd yn cael mwy o ddefnydd bob blwyddyn gyda nifer o weithgareddau amrywiol newydd, ac yn wir anaml iawn mae diwrnod yn mynd heibio heb agor y neuadd.

Anfonwn ein dymuniadau gorau i Mr Bayford gan obeithio y bydd yn ôl gyda ni yn fuan.

Felly cofiwch am ein pwyllgor nesaf – Cwrdd Blynnyddol pwyllgor rheoli'r neuadd ar nos Fercher, Chwefror 14eg am 8 o'r gloch. Dewch i ddangos diddordeb a rhoi eich cefnogaeth. Bydd croeso mawr i chwi.

Glenys Edwards

Cyfarfod Chwiorydd Rehoboth

Ar brynhawn Mawrth, Ionawr 9ed, cyflwynodd Eirlys ein gŵr gwadd sef Illtyd Griffiths o Glandyfi. Roedd yn teimlo'n reit gartrefol gan ei fod yn ôl yn ei gynefin, yn fab i'r diweddar Barchedig John Henry Griffiths a oedd yn weinidog yng Nghapel Soar, Tre'r-ddôl.

Gan mai deintydd oedd ei alwedigaeth cyn ymddeol, cawsom brynhawn diddorol ac addysgiadol yn gwrando ar hanes trylwyr o'r datblygiadau a fu yn ymwneud â dannedd o'r cychwyn cyntaf cyn Crist hyd heddiw.

Cawsom amryw o storïau difyr, am wahanol gymeriadau nerfus a eisteddai yn ei sedd. Soniodd am y diweddar 'Niclas y Glais' a weithiai fel deintydd mewn sied ar waelod yr ardd, yn Aberystwyth. Trafaelïai o ardal i ardal, gan dynnu dannedd poenus allan.

Pwysleisiodd bwysigrwydd dannedd a'r modd y meddir adnabod person sydd wedi marw weithiau mewn amgylchiadau amheus. Mae'n dda deall fod cyflwr dannedd wedi gwella ers 1972 pan ychwanegwyd fluoride i'r past glanhau a'r dŵr yfed.

Diolchodd Eirlys, er ei bod yn cyfaddef ei hofn o ddeintydd, i Illtyd yn gynnes iawn am brynhawn difyr dros ben. Mwynhawyd paned wedi ei baratoi gan Tegwen a Margaret.

“Ydych chi eisiau Taliesin a Thre’r Ddol i fod yn gymunedau ynni cynaliadwy?”

Trafodwyd wedyn y manteision a’r anfoneision i’r strategaethau gwahanol yma a pha un, os o gwbl, hoffai pobl weld yn cael eu datblygu o fewn eu cymuned nhw. Calonogwyd Polly Henderson, y trefnydd, o glywed cyfraniadau deallus ac i sylweddoli bod cymaint o wybodaeth arbenigol yn y pentref yn barod. Penderfynwyd cynnal cyfarfod arall yn fuan er mwyn dechrau dod a chynllun ynghyd o’r holl syniadau a gowyd.

Am fwy o wybodaeth neu i ymuno a rhestr post y grŵp, byddai croeso i unrhyw un gysylltu â Polly Henderson ar 832369.

Polly Henderson

Gol.

Yn ystod y bythefnos diwethaf mae adroddiad gan y Cenhedloedd Unedig ar fater cynhesu byd eang wedi dod i sylw pawb sy’n darllen papur newydd neu’n gwrando ar y newyddion. Wrth wrando ar un gwyddonydd sy’n gweithio yn y maes dyma a ddywedodd -

“ACHUB Y BYD - fe edrychith y blaned ar ôl ei hunan, gan altro yn ôl y galw, y cwestiwn yw A ALLWN NI ACHUB EIN HUNAIN WRTH FYW AR Y BLANED”

Onid peth da felly yw cael adroddiad o Daliesin a sylweddoli bod pobl leol yn pryderu ac yn fodlon cychwyn ceisio gwneud ei rhan fach nhw i atal mwy o ddirywiad i’w hamgylchedd. Yn ôl yr hyn a

ddarllenir mae’r mater yma’n un o brif bryderon ein pobl ifanc a gan ystyried mai ein plant a’n hwyrion ni fydd yn dioddef onid ni ddylai fod yn gweithredu nawr cyn ei bod yn rhy hwyr.

Deallir mai rhyw ddau dŷ yn Nhal-y-bont sydd â phaneli solar, am a wyddon ni, does dim un yn Nhaliesin na Thre’r Ddol. Un cwpwl dewr a benderfynodd, ddwy flynedd yn ôl, osod dau banel solar ar do ffrynt a dau ar do cefn y tŷ oedd Mair ac Emyr Jones Maesnant. Dywed Emyr eu bod yn falch iawn o’r pwrcasu. Mae dŵr yn y paneli’n cael ei gynhesu a does dim angen rhyw lawer iawn o haul i wneud hyn. Cyfrifiadur bach sy’n rheoli popeth ac mae digonedd o ddŵr poeth yn cael ei gynhesu’n rheolaidd ac o’r herwydd yn lleihau eu defnydd nhw o nwy ac wrth gwrs cost y nwy iddynt.

A wyddech chi fod Gwynfor Davies Davmor yn cynhesu’r garej gydag olew gwastraff ond yn gorfod talu am y gwasanaeth o gasglu tanwydd wedi’i halogi. Gwyddom eisoes bod gan David Elwyn Nant Ddu dwrbein dwr. Ac yn ôl Y Lolfa maen nhw’n gobeithio hepgor cemegau o’r broses argraffu o fewn y flwyddyn. Mae popeth yn help.

Gall trigolion Tal-y-bont fod yn falch hefyd am y drefn o ail-gylchu papur, cerdyn, plastig a chaniau sy’n cael eu casglu bob bythefnos o’r step drws. Dyw’r gwasanaeth yma ddim wedi cyrraedd Taliesin a Thre’r Ddol eto.



Cyfeillion Fadeco yn Anfon Offer i Tanzania

Efallai i chi darllenwyr Papur Pawb gofio am erthyglau blaenorol yn sôn am yr elusen lleol Cyfeillion FADECO. Mae’n cefnogi gwaith datblygu cymunedol ac economaidd mewn ardal anghysbell yn Tanzania. Gwaith a ddechreuwyd gan Joseph Sekiku, sydd wedi ymweld â’r ardal yma deirgwaith.

Yn ystod 2004 ymwelodd Brian Davies, cyn-Brifathro Ysgol Rhydpennau â phentref Nyakasimbi. Aeth â defnyddiau addysg yno ac ymwelodd a phrojectau FADECO sydd yng ngofal Joseph. Ar hyn o bryd, mae’r gymuned yn adeiladu canolfan hyfforddi. Cyn y Nadolig, fe gynhaliwyd apêl gan Gyfeillion FADECO am offer ar gyfer hyfforddi saeri coed, saeri maen, perianyddion ceir a gwaith gwnïo.

Casglwyd gymaint o offer, roedd rhaid i Gyfeillion FADECO adeiladu 5 crât (gweler llun uchod) er mwyn eu cludo i ‘Tools for Self Reliance’ yn Nghrughywel a drefnodd eu cario i Dar es Salaam. Wedyn roedd rhaid eu cludo mewn lori i Mwanza ger Llyn Victoria ac ymlaen i Bukoba ar ochr arall y llyn. Gwaith Joseph Sekiku oedd eu cludo ar ran olaf y daith hir a herciog o 150 milltir ar ffordd anwastad di-darmac at y Ganolfan Eden Dechnoleg Addas, sydd newydd ei henwi. Na, dydy’r enw ddim yn cyfeirio at Ganolfan Eden yn Nghernyw, ond i un o’r gefnogwyr mwya brwd FADECO, sef Flic Eden o Daliesin. Dyma hi wrthi’n galed yn adeiladu’r cratiau efo Jules Thompson, Temperance House,.

Ar 24 Chwefror, dangosir ffilm “The Fantastic Planet” gyda chyfeiliant byw yn y Tabernacl, Machynlleth. Bydd yr elw’n mynd i FADECO (Family Alliance for Development and Co-operation)

Am fwy o wybodaeth am FADECO, ewch i’r wefan: www.fadeco.org

Golygyddion newydd

Mae dwy gyd-olygydd newydd wedi ymuno â Medi a Nic y mis yma, sef Fran Disbury Taliesin a Mererid Archer Tal-y-bont. Mae Fran yn byw yn Nre-Taliesin ers pymtheng mlynedd ac yn gweithio yn Llyfrgell y Brifysgol. Mae Mererid yn byw yn Nhalybont ers 5 mis ac yn gweithio i Fudiad Ysgolion Meithrin yn Aberystwyth.



Y Fframdy

Mae’r gweithdy yn darparu gwasanaeth fframio dychmygus o’r safon uchaf. Cewch ddewis o amrediad eang o siapiau gosod a fframiau. Bydd y fframdy’n gallu darparu ar gyfer unrhyw anghenion unigol.

Y Fframdy, Glanceri, Y Borth, Ceredigion SY24 5JA
Ffôn: 01970 871042
Symudol: 07773 846659

CODI Tŷ NEU ESTYNIAD?

Iwan Jones, Technegydd Pensaernïol
Gellimercwys, Tal-y-bont, Ceredigion SY24 5HJ
01970 832760

EISTEDDFOD GENEDLAETHOL, YR WYDDGRUG

Sul 5ed Awst – Sadwrn 11eg Awst

Gwesty De Vere, Parc Dewi Sant – 7 Diwrnod
6 Noson, Cinio Gwely a Brecwast - £499

Llun 6ed Awst – Gwener 10fed Awst

Gwesty'r Holiday Inn, Gorllewin Caer – 5 Diwrnod
4 Noson, Cinio Gwely a Brecwast - £329

Sul 5ed Awst – Sadwrn 11eg Awst

Gwesty Moreton Park – 7 Diwrnod
6 Noson, Cinio Gwely a Brecwast - £449

Sul 5ed Awst – Sadwrn 11eg Awst

Gwesty Ramada, Wrecsam
6 Noson, Cinio Gwely a Brecwast - £439

TEITHIAU YN Y D.U.

2il Ebrill – Bideford a *Gogledd Dyfnaint – 5 Diwrnod – £159

2il Ebrill – Regency Brighton – 5 Diwrnod – £199

9fed Ebrill – Torquay – 5 Diwrnod – £149

9fed Ebrill – Eastbourne ac Arfordir Sussex – 5 Diwrnod – £219

16eg Ebrill – Yn glyd ar lan y Llynnoedd – 5 Diwrnod – £199

16eg Ebrill – Ynys Wyth – 5 Diwrnod – £229

16eg Ebrill – Norwich a'r Norfolk Broads – 5 Diwrnod – £219

16eg Ebrill – Stirling a'r Trossachs – 5 Diwrnod – £179

16eg Ebrill – De Ddwyrain Lloegr – 5 Diwrnod – £179

30eg Ebrill – Antur yn yr Ucheldir – 5 Diwrnod – £259

7fed Mai – Bournemouth – 5 Diwrnod – £209

7fed Mai – Rhyfeddodau Caint a Ffrainc – 5 Diwrnod – £269

7fed Mai – Oban, Mull ac Iona (holgynhwysol) – 5 Diwrnod – £299

GWYLIAU YN EWROP

1af Mawrth – Gŵyl Ddewi yn Eurodisney – 4 Diwrnod – o £249

26ain Mawrth – Moethuswydd yn Berlin – 6 Diwrnod – £299

21ain Mai – Llyn Garda a Fenis – 10 Diwrnod – £499

3ydd Meh – Norwy, Gwlad Haul y Nos – 13 Diwrnod – £999

21ain Meh – Antur Mynyddoedd y Tyrol – 10 Diwrnod – £499

1af Gorff – Andorra – 10 Diwrnod – £469

18fed Gorff – Slofenia a Llyn Bled – 11 Diwrnod – £599

5ed Awst – Crwydro Gwlad Pŵyl – 11 Diwrnod – £675

18fed Awst – Prague, Budapest a Fiena – 11 Diwrnod – £699

1af Medi – Taith Fawr Ewrop – 14 Diwrnod – £999

8fed Medi – Costa Verde Portiwgal – 13 Diwrnod – £659

12fed Medi – Awstria, Cestyll a Chyngherddau – 11 Diwrnod – £749

19eg Medi – Gwledydd y Baltig a St Petersburg – 12 Diwrnod – £1099

24ain Medi – Corsica a Sardinia – 13 Diwrnod – £999

01286 672333

www.silverstarholidays.com

CHEZ DUDLEY CHWILIO AM GYSTADLEUWYR!!

Yn dilyn llwyddiant CHEZ DUDLEY y llynedd yn ardal
Provence, Ffrainc mae Dudley yn hel ei bac unwaith eto ac
yn heglu hi am yr Eidal!

Ydych chi'n mwynhau coginio? Yn mwynhau dangos eich
doniau yn y gegin? Eisiau'r cyfle i dreulio amser mewn
ysgol goginio yn yr Eidal?

OES?! Mae CASA DUDLEY yn disgwyl amdano chi!

Am fwy o fanylion a ffurflen gais cysylltwch â:

Teledu Opus,

60 Severn Grove, Pontcanna, Caerdydd CF5 1JP

neu ffoniwch: 029 20 22 34 56

neu gyrrwch ebost: opus@opusf.com

dyddiad cau: 30ain Mawrth

Dathlu'r Calennig Newydd

Daeth nifer o fobl i ddathlu'r Hen Galan yng nghwmni
Jeremy Turner a Mathew o Borth. Teithiodd mintai o fobl eto
eleni yn canu gyda'r acordion gyda'r Fari Lwyd. Wedi galw
mewn sawl tŷ, darllenwyd storïau i'r plant yn y Llew Du, lle
darpwyd sgldion.



Argraffu 5-lliw
a gwasanaeth di-ail:
holwch Paul am bris
ar paul@yloffa.com



yloffa

TALYBONT CEREDIGION SY24 5HE

01970 832 304

yloffa@yloffa.com

www.yloffa.com

CROESAIR DIWRNOD Y LLYFR 2007


Cynhelir Diwrnod y Llyfr eleni ar 1 Mawrth, ac y mae'r Cyngor Llyfrau wedi trefnu croesair arbennig ar gyfer holl bapurau bro Cymru. **Bydd gwobrau o docynnau llyfrau gwerth £30 yr un ar gael i DRI enillydd lwcus a bydd papurau bro'r tri enillydd yn derbyn siec o £50 yr un.** Felly, dyma gyfle i dderbyn gwobr bersonol a chefnogi'ch papur bro yr un pryd!

AR DRAWS

- 2 *Hi* _____, nofel gan Bethan Gwanas (3, 2, 5)
- 6 Enw'r wrach yn llyfr Valerie Thomas ar gyfer plant ifainc (4)
- 9 Enw cyntaf awdures *Dathlu Gwyl Ddewi* (4)
- 10 Enw'r ellyll erchyll yn llyfr Moira Andrew (4)
- 12 Y *Cwlb* _____ *Cwl*, addasiad Cymraeg o Sleepover Girls (5)
- 13 'Anadla, _____ lór', llinell gyntaf emyn 567 yn *Caneuon Ffydd* (5)
- 14 Gair o _____, stori deimladwy gan Bob Eynon am ofidiau mam a chwaer milwr (6)
- 16 *Dial yr Hanner* _____, nofel dditectif gan Arwel Vittle (5)
- 19 Cyfrol gan Mair Garnon yn y gyfres *Ti'n Jocan* (6, 3, 6)
- 22 *Siôn y Gyrrwr* _____, llyfryn i ddarlennwyr ifanc gan John Light (4)
- 24 Cawl Dewi Pws (6)
- 29 _____ a'r *Cochyn Coch Bach* gan Adele Geras – un o gyfres o lyfrau darllen difyr (5)
- 31 Un o enwau awdur *Jambo Caribw: Taith i Borth Uffern* (5)
- 32 _____ y *Cant*, casgliad o bosau wedi ei olygu gan Carwen Vaughan (4)
- 33 Llyfr darluniadol gan Mari Tudor ar gyfer disgyblion sy'n dysgu Cymraeg – *Sêl* _____ *Car* (4)
- 34 *Elfed*: _____ ar *Goesau Byr*, cyfrol o atgofion am Elfed Lewis gan Ioan Roberts (4)
- 35 Stori mewn odl ar gyfer plant am feic anhygoel gan Mererid Hopwood (1, 6, 3)

I LAWYR

- 1 *Draw Draw yn y* _____ gan Meryl Doney – llyfryn lliwgar i blant yn llawn o weithgareddau ar gyfer y Nadolig (6)
- 2 Enwau cyntaf arlunydd ac awdur sydd newydd gyhoeddi cyfrol Saesneg ar waith Josef Herman (3, 3)
- 3 Nofel ysgafn am glwb colli pwysau gan Meleri Wyn James (4, 4)
- 4 Ail nofel ysgytwol Llwyd Owen (3, 6, 6)
- 5 _____ *Deud Dim, Deud Ydw i*, hunangofiant Stewart Whyte McEwan Jones (3, 1)
- 7 Cyfenw awdur y drïoleg *Casglwr, Lladdwr ac Euog* (4)
- 8 Enw cyntaf awdures *Go Fflamia a Dal dy Dir* (4)
- 11 Gair cyntaf teitl cyfrol o farddoniaeth Ieuan Wyn a gyhoeddwyd yn 1989 (4)
- 15 Cariad Nia Ben Aur (5)
- 17 Enw cyntaf Dyn y Parc (3)
- 18 Dyma oedd swydd Sinbad, *Dan y Wenallt* (5)
- 20 Nofel gan Mair Evans am fywyd gwyllt tair ffrind ifanc (3)
- 21 *Clychau* _____, casgliad deniadol o garolau gan Gwennant Pyrs (8)
- 23 Dyn o Dregaron sydd newydd gyhoeddi cyfrol arall yng nghyfres *Ti'n Jocan* (4)
- 25 *Dyn yr* _____, nofel anarferol a grymus gan Owen Martell (6)
- 26 Enw cyntaf awdur *Y Mabinogi*, llyfryn dwyleithog yng nghyfres *Clip ar Gymru* (6)
- 27 _____ *Gron Bach*, un o nofelau Eirug Wyn (4)
- 28 Enw cyntaf cymeriad sydd bellach yn byw ym Mhentre Bach, cymeriad a grëwyd yn wreiddiol gan 30 i lawr (4)
- 30 Enw cyntaf awdures *Pastal Tomas Caradog* (4)



Gall chwilio gwefan www.gwales.com eich helpu gyda'r atebion

gwales.com
llyfrau ar-lein



CYNGOR LLYFRAU CYMRU



ENW

CYFEIRIAD

ENW'R PAPUR BRO

Anfonwch y croesair at: Croesair Papur Bro, Cyngor Llyfrau Cymru, Castell Brychan, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 2JB, erbyn 30 Ebrill 2007. Gofalwch nodi eich enw a'ch cyfeiriad ac enw'ch papur bro lleol.



Cors Fochno yn allweddol i ymchwil newid yn yr hinsawdd

Mae Cors Fochno yn prysur ddatblygu'n un o'r safleoedd pwysigaf drwy'r DU o safbwynt ymchwilio i newid yn yr hinsawdd. Y Cyngor Cefn Gwlad sy'n rheoli'r Warchodfa Natur Genedlaethol yno, a dyma un o'r coryddau a gaiff ei hastudio fwyaf trwy Ewrop gyfan.

Yn ddiweddar, mae gorsaf dywydd newydd wedi ei hadeiladu ar y warchodfa, fel rhan o rwydwaith trwy Gymru gyfan, er mwyn cynorthwyo i fonitro'r safle o ran newid yn yr hinsawdd. Mae'r orsaf hon yn mesur glawiad, tymheredd, lleithder, tymheredd y pridd, cyflymder a chyfeiriad y gwynt, y pelydriad heulog a ddaw i mewn a'r pelydriad heulog a aiff allan.

Ar y warchodfa, mae dau ddarn o waith ymchwil pwysig yn cael eu cynnal, ac fe fydd data'r orsaf dywydd yn cefnogi'r rhain. Andy Baird, ymchwilydd i hydroleg mawndiroedd ac Athro daearyddiaeth ffisegol yn Queen Mary, Prifysgol Llundain, sy'n cynnal y gwaith ymchwil dan sylw. Yn ôl Yr Athro Baird: "Mae fy ngwaith ymchwil yn seiliedig ar gynhesu byd-eang. Mae'r gwaith ymchwil cyntaf – sef astudiaeth ar y cyd rhwng y Cyngor Cefn Gwlad ac Asiantaeth yr Amgylchedd – yn astudio'r effaith a gaiff lefelau'r môr ar Gors Fochno wrth iddynt godi.

"Mae'r ail waith ymchwil yn ymchwilio i'r methan a gaiff ei gynhyrchu mewn coryddau, a'r effaith bosibl a gaiff hyn ar newid yn yr hinsawdd. Coryddau yn hemisffer y gogledd yw canolbwynt y gwaith ymchwil hwn, ac mae Cors Fochno yn enghraifft bwysig o gors o'r fath.

"Yng nghoryddau mawr hemisffer y gogledd, mae yna lawer o garbon yn cael ei storio, ac rydym angen deall sut y bydd y coryddau yma'n newid fel ffynonellau carbon deuocsid a methan yn ystod y can mlynedd nesaf, er mwyn ein helpu i ddeall system hinsawdd y byd."

Meddai Mike Bailey, Uwch Reolwr Gwarchodfa Cors Fochno ar ran y Cyngor Cefn Gwlad: "Mae gwaith ymchwil yn allweddol i fesur a deall y newidiadau a ddaw yn sgil newid yn yr hinsawdd – er enghraifft, yr effaith a gaiff cynnydd yn lefel y môr ar sychder ac ar amgylcheddau gwahanol a'u hecole. Fe fydd y gwaith ymchwil a wneir ar y safle hefyd yn creu darlun o sut y mae angen inni addasu'r ffordd yr ydym yn rheoli Cors Fochno a safleoedd tebyg, er mwyn ymdopi efo'r newidiadau yma."

Trwy gyfrwng ffotosynthesis, mae planhigion mawndiroedd yn amsugno carbon deuocsid (CO₂). Felly, mae coryddau sy'n llawn dŵr a choryddau sy'n dal i gynyddu mewn maint yn llefydd pwysig iawn o safbwynt storio carbon, ac maent yn cynnwys oddeutu traean o'r carbon a gaiff ei storio ym mhrridd y byd.

Fe all cynnydd mewn tymheredd yn sgil cynhesu byd-eang wneud i'r mawr byddu ynghynt. Golyga hyn y bydd mwy o garbon yn cael ei ryddhau i'r atmosffer, ac na ellir ei amsugno'n ddigon buan. Dyma pam y mae gwarchod ac adfer coryddau mawr yn gwbl hanfodol.

Mae Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol yn llefydd allweddol i wyddonwyr gan eu bod yn eu galluogi i ymchwilio i brosesau naturiol a'r bywyd y mae'r prosesau hyn yn ei gynnal. Mae'r Cyngor Cefn Gwlad hefyd yn cynnig grantiau er mwyn cynorthwyo gyda chostau'r gwaith ymchwil.

Elin Jones AC – O'r Cynulliad

Mae'r bygythiad i'n Swyddfeydd Post yn parhau i fy mhoeni. Cyn y Nadolig, fe ddywedodd Llywodraeth Lafur San Steffan eu bod am gau 1 o bob 6 Swyddfa Bost ym Mhrydain, ac maent yn ymgynghori â'r cyhoedd ar y cynlluniau yma ar hyn o bryd. Ceredigion yw'r etholaeth Gymreig sydd â'r nifer fwyaf o Swyddfeydd Post gan fod gennym 61 ohonynt. O ganlyniad, mae'n debyg mai ni fydd yn colli'r nifer fwyaf o ganghennau. Rwy'n



gwrthwynebu'r cynlluniau hyn yn chwyrn am fod ein rhwydwaith o Swyddfeydd Post yn hanfodol ar gyfer dyfodol ein cymunedau gwledig yma yng Ngheredigion. Felly, yn ystod y diwrnod cyntaf nôl yn y Senedd wedi'r gwyliau fe heriais Rhodri Morgan i wrthwynebu'r cynlluniau yn ei ymateb i ymgynghoriad San Steffan. Gwnes hefyd alw ar ei lywodraeth i roi mwy o gymorth i'n rhwydwaith Swyddfeydd Post gwledig.

Dros y mis diwethaf, rwyf hefyd wedi bod yn ymchwilio i gynlluniau ar gyfer dyfodol y gwasanaeth iechyd yng Ngheredigion. Rwy'n pryderu'n bennaf am y cynlluniau i uno'r tair ymddiriedolaeth iechyd yn Nyfed o ganlyniad i ddyledion ymddiriedolaethau Sir Gâr a Sir Benfro. Mae dyledion hanesyddol y ddwy ymddiriedolaeth yma 11 gwaith yn fwy na dyled bresennol Ceredigion o £3.1m. Rwy'n poeni y bydd angen i Geredigion ysgwyddo cyfran o ddyledion y ddwy ymddiriedolaeth arall os ydynt yn uno, ac mae'n debyg y byddai hyn yn arwain at gwtogi gwariant ar wasanaethau iechyd.

Yn olaf, siaradais mewn cyfarfod cyhoeddus yn Aberystwyth yn ddiweddar i gefnogi gweithwyr yn Swyddfa Dreth y dre yn eu hymgyrch i wrthwynebu cynlluniau Llywodraeth San Steffan i dorri swyddi yno. Dros y blynyddoedd diwethaf, mae canolfannau gwaith Llambd a Llandysul wedi cau ac fe fydd Swyddfa Nawdd Cymdeithasol yn cau yn y dyfodol. Mae'n hynod o bwysig felly ein bod yn parhau i ymgyrchu i wrthwynebu colli swyddi arbenigol yn y Swyddfa Dreth.

TEIARS

HUW LEWIS TYRES

Rhodfa'r Parc, Aberystwyth
Ffôn: 01970 636774

Am bris cystadleuol ar bob math o deiars, ecsôsts, ac ati, cysylltwch â gwasanaeth lleol...

- Dewis eang o deiars
- Balansio Electronig
- Ecsôsts
- Tracio
- Brêcs
- Ar agor 6 diwrnod yr wythnos

Pryd wnaethoch chi gymryd

golwg ...

... ar Gymru a'ch ardal chi?

Mae Golwg wedi newid, gyda rhagor o straeon a mwy o'r rheiny'n dod o'ch ardal chi

Dyma rai sydd wedi ymddangos yn y rhifynnau diwetha' ...



Eisiau gweld mwy?

Dyma restr o'r siopau lleol lle mae Golwg ar gael. Os na allwch ei weld, gofynnwch!

- Siop y Pethe, Aberystwyth
- Inc, Aberystwyth
- Roy Jones Newsagents, Borth
- Swyddfa Bost Penrhynoch
- Castle News, Aberystwyth
- W H Smith, Aberystwyth
- Siop Myfyrwyr Aberystwyth, Campws Penglais
- Siop y Prom, Aberystwyth
- Woolworths, Aberystwyth
- Londis, Abersytwyth
- Spar, Penparcau
- Co-op, Waunfawr
- Swyddfa Bost Talybont
- Swyddfa Bost Rhydypennau
- Hendre Stores, Waunfawr

Os nac oes siop yn gyfleus, gallwch archebu trwy'r post – 01570 423529 neu www.golwg.com

bob dydd
iau

Gwell gwybodaeth am eich trafnidiaeth lleol

Ffurfiwyd Grŵp Defnyddwyr Cludiant Cyhoeddus Bro Ddyfi gan nifer o bobl lleol sydd eisiau gweld gwelliant yn y gwasanaeth cludiant cyhoeddus yn ein hardal. Yn ddiweddar rydym wedi bod yn cyd-weithio efo Arriva Buses, Lloyds Coaches, Gwynedd, Powys a Cheredigion er mwyn darparu gwell gwybodaeth am y gwasanaeth bysiau rhwng Aberystwyth, Machynlleth, Dolgellau a Thywyn. Gwellodd gwasanaethau 28 a 32 y llynedd ond mae'n gallu bod yn anodd i darganfod pryd mae nhw'n rhedeg.

Rydym newydd ddosbarthu amserlenni sy'n arbennig i bob pentref yn yr ardal. Mae nhw wedi cael eu dylunio i edrych yn debyg i gardiau credyd er mwyn bod yn gyfleus i chi eu cadw yn eich waled. Bellach, mae nhw'n syml iawn i'w darllen – dim ond amserau bws i ac o un pentref yn unig sydd arnyn nhw. Mi ddylech chi fod wedi derbyn un ohonyn nhw efo taflen drwy eich drws.

Hwn fydd y tro cyntaf y bydd prosiect o ddosbarthu gwybodaeth arbennig i bob tŷ yn digwydd mewn ardal wledig. Nid yw'n cludiant cyhoeddus yn berffaith – o bell ffordd! Yn ddiweddar mae'r Cynulliad wedi prynu bysiau newydd sy'n gallu 'penglinio' er mwyn helpu pobl gamu i mewn, ac sy'n lawer smartiach na'r hen fysiau sragliod oedd yn cael eu rhedeg gan y cyrff bysiau pan oeddwn i'n blentyn. Hefyd mae yma fwy o fysiau erbyn hyn yn rhedeg rhwng Tywyn-Dolgellau, Tywyn-Machynlleth a Machynlleth-Aberystwyth. Ond 'use it or lose it' ydy'r rheol, ac rydym yn gobeithio y bydd yr amserlenni cerdyn yma yn helpu mwy o bobl i ddefnyddio'n gwasanaeth bysiau.

Os ydych eisiau gwybod mwy am y Grŵp Defnyddwyr Cludiant Cyhoeddus Bro Ddyfi cysylltwch â Ian Taylor 01654 781315 (neu iantaylor@merrygoround.fsnet.co.uk).

James Memorials

Am
**GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A
BUSNESAU**

*Gofynnwch am bamffled
rhad ac am ddim*

James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

GAREJ DAVMOR

M.O.T., Gwasanaeth,
Batris a Theiars

Gellir llogi car, fan neu fws mini
i'w gyrru eich hun

www.davmorgarage.co.uk
Ffôn: 01970 832278

CHWARAEON

Clwb Pêl-droed Ieuenctid Tal-y-bont



Tal-y-bont yn erbyn y Bleddiaid

Wedi cyfnod o segurddod cyn y Nadolig oherwydd i'r tywydd garw olygu gohirio cymaint o gêmau, mae tîmau Tal-y-bont wedi bwrw ati yn y flwyddyn newydd gydag awch a brwdfrydedd. Yn yr adran dan 14 oed collwyd i Lanilar o 3-0 ond cafwyd buddugoliaeth wych yn ddiweddar ym mis Ionawr pan gurwyd Tregaron 3-1. Dyma yn ddiamau oedd canlyniad gorau'r tymor i dîm Dick Squires o ystyried iddynt golli'n drwm i Dregaron ar ddechrau'r tymor.

Llongyfarchiadau i Dick a'i dîm am eu gwaith caled.

Yn yr adran dan 12 oed, wythnos i Ddydd Sadwrn diwethaf, gwelwyd gêm 'dderby' fawr y tymor, - na nid Lerpwl v Everton, - ond Y gêm 'dderby', sef Tal-y-bont A yn erbyn Tal-y-bont B. Yn y gêm gyntaf cyn y Nadolig roedd tîm B yn fuddugol o 5-4 diolch i gic o'r smotyn yn y munudau olaf. Y tro hwn doedd dim goliau yn yr hanner cyntaf ond yn yr ail, sgoriodd Ryan Thomas i'r tîm A cyn i Max Jones unioni'r sgôr. 1-1 oedd y canlyniad felly gyda'r ddau dîm yn fodlon. Dydd Sadwrn diwethaf roedd bechgyn Tal-y-bont A ar eu gorau gan guro'r hen elyn Bow Street o wyth gôl i dair.

Ar lefel ysgolion cynradd suddwyd gobeithion Tal-y-bont yn ngêm gyntaf y flwyddyn newydd 1-5 yn erbyn Dolffinaiad

Tîm Hoci Tal-y-bont

Nos Wener, 2 Chwefror, bu tîmau hoci A a B Tal-y-bont yn cystadlu yn erbyn ysgolion Cwmpadarn a St Padarn. Enillodd tîm A o ddwy gôl i ddim a chyfartal oedd y sgôr yn y gêm a chwaraewyd gan Tal-y-bont B.



Merched Tal-y-bont yn erbyn Ystwyth Devils

Llanrhystud ond wedi'r siom cafwyd llwyddiant yn erbyn y Cewri pan enillwyd 3-0. Yna yn erbyn Bleiddiaid yr Ysgol Gymraeg roedd Tal-y-bont yn colli 0-2 ar yr egwyl cyn taro 'nôl gyda dwy gôl dda gan Luke Davies. Roedd hwn yn berfformiad da o ystyried bod dau o chwaraewyr gorau'r tîm, Richard Jenkins a Richard Bailey, yn absennol gan eu bod yn chwarae i Aberystwyth yn erbyn Bangor ym Mhencampwriaeth Ysgolion Cymru.

Mae'r Teirw wedi gwella'n arw wrth i'r tymor ddatblygu gyda llawer o'u chwaraewyr yn ennill profiad o chwarae yn y tîm cyntaf. Ambell dro, serch hynny, golyga hyn na fu'r Teirw ar eu cryfa gan arwain at ganlyniadau anghyson. Yn ystod yr wythnosau diwethaf, er enghraifft, curwyd tîm cyntaf Ysgol Tregaron o saith gôl i dair ond collwyd i Ysgol Plascrug 1-4.



Teirw yn erbyn yr Eagles



Teriys Tal-y-bont yn erbyn Ystwyth Select

Yn yr adrannau is, cafwyd canlyniadau amrywiol gyda Merched Tal-y-bont, dan oruchwyliath Karen Evans, yn aflwyddiannus ar ddechrau'r mis cyn sicrhau gêm gyfartal 0-0 yn erbyn Dyffryn Ystwyth. Anghyson hefyd fu'r Teriys. Ar ôl curo'r Falcons 3-0, collwyd dwy gêm yn olynol o 0-3, yn erbyn Bow Street C ac Ystwyth Juniors. Ar ôl chwarae'n ddygn i gipio gêm gyfartal 0-0 yn erbyn Melindwr, collodd y Taranau eu dwy gêm yn erbyn Bow Street D a Dreigiau Coch Penrhyncoch.

Pob lwc i'r tîmau a'r chwaraewyr ar gyfer gweddill y tymor ac hefyd i'r rhai sy'n dringo'r ysgol hyfforddi yn ystod yr wythnosau nesaf.

Brian Richards

Mae Papur Pawb yn awyddus i gynnwys newyddion am hynt a helynt unigolion neu dimau o'r ardal sy'n cystadlu yn y byd chwaraeon. Anfonwch yr hanesion at Gwyn Jenkins drwy ebost (maesgwyn@fsmail.net) neu ffoniwch ef ar 832560.